Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 139

**Amseru:**

**Teitl: Cyfraniad ariannol er mwyn sefydlu Unedau Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu rhanbarthol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'n glir bod yr amserlenni cyflenwi gwasanaeth yn yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu ar gyfer archwilio dyfeisiau electronig yn effeithio ar hyd ymchwiliadau, cyflawni canlyniadau ymchwiliol prydlon, a dwyn erlyniadau gerbron y llysoedd. Rhoddodd yr Heddlu bapur dewisiadau at ei gilydd er mwyn edrych ar sut y gallent wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflenwi gwasanaeth. Cyflwynwyd y papur hwnnw i'r CHTh. Wedi iddo ei ystyried, penderfynodd y CHTh roi cyfraniad ariannol i'r Heddlu er mwyn gwella sgiliau 7 Ymchwilydd Lleoliadau Trosedd, gan ddarparu adnodd archwilio ffonau ychwanegol. Mae'r CHTh wedi penderfynu rhoi cyfraniad o £48,282 o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Argymhelliad:**
Cadarnhau cyfraniad ariannol o £48,282 o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16/8/2019